

21.10.20

Annwyl Riant/Warcheidwad,

Yn gyntaf, rydym yn edrych ymlaen i groesawi'r disgyblion o fws y 632B sydd wedi bod yn hunan ynysu yn ôl i'r ysgol yfory. Yn dilyn cyhoeddiad Llywodraeth Cymru ddydd Llun i gynnal cyfnod clo byr o ryw bythefnos, hoffwn rannu ein trefniadau gyda chi ar gyfer ein disgyblion.

Fel y gwyddoch, mi fydd disgyblion ym mlynnyddoedd 7 ac 8 yn mynychu'r ysgol fel arfer ar ôl hanner tymor. Ni fydd disgyblion o flynyddoedd 9-13eg yn mynychu'r wythnos o'r 2-6ed o Dachwedd, ond byddwn yn parhau i ddarparu gwersi i'r disgyblion yma yn ddigidol. Mae manylion llawn o sut y bydd hwn yn gweithio isod.

Mae ymateb eich plant i'r mesurau diogelwch sydd yn eu lle yn yr ysgol yn dda iawn ar y cyfan. Rydym yn symud at gyfnod ble mae angen i bob un ohonom llynu at y mesurau diogelu pwysig yma. Gofynnwn i chi bwysleisio pwysigrwydd y mesurau diogelwch cofid yma i'ch plant, yn ogystal â mynnu eu bod yn osgoi ymgynnull neu gwrdd gyda phobl o deuluoedd gwahanol y tu allan i'r ysgol. Gyda'n gilydd fe allwn weithredu er lles pob un sydd yn gysylltiedig â chymuned yr ysgol.

CANLLAWIAU DYSGU O BELL I DDISGYBLION BL.9-13EG (yn ystod y cyfnod clo yr 2-6ed o Dachwedd)

Dyma wybodaeth gryno i chi o'r camau y byddwn ni'n eu cymryd i sicrhau bod eich plentyn yn parhau i ddysgu yn ystod wythnos yr 2-6ed o'r cyfnod clo.

- Bydd pob adran yn cyfathrebu gyda'ch plentyn drwy **Microsoft Teams**. Er mwyn cael cymorth ar sut i gael mynediad at Teams, ewch i <https://www.youtube.com/watch?v=9mHy5OqBFfg> ble mae fideos defnyddiol gan Mr Fletcher yn esbonio'r cyfan.
- Byddwn ni'n cadw at amserlen eich plentyn ac yn cynnal gwersi arlein drwy Microsoft Teams er mwyn esbonio gwaith ac i ateb unrhyw gwestiynau. Byddwn yn rhoi egwyl lles byr o ryw 5-10 munud i'ch plentyn ar ddiwedd pob gwers am y cyfnod yma er mwyn lleihau ar yr amser a dreulir o flaen y sgrîn.
- Byddwn ni'n recordio'r gwersi hyn ar gyfer unrhyw ddisgyblion sy'n methu ag ymuno'n fyw. Os nad oes modd cynnal gwers fyw, byddwn ni'n recordio esboniadau o waith eich plentyn o flaenllaw a bydd y recordiadau ar gael ar Teams i'w gwyllo yn ystod y wers er mwyn cynorthwyo'ch plentyn gyda'r gwaith. Bydd athro eich plentyn hefyd ar gael am bob gwers i ateb unrhyw gwestiynau drwy'r 'chat' ar Teams.
- Bydd llyfrau/pecynnau gwaith eich plentyn gyda nhw yn ystod y cyfnod hwn. Yn aml, mae hunanynysu yn gorfod digwydd yn gyflym iawn ac felly rydym yn argymhell bod y disgyblion yn cadw eu gwaith gyda nhw er mwyn gallu defnyddio'r adnoddau adref ar unrhyw achlysur.
- Dylai eich plentyn fod yn hyderus wrth ddefnyddio Teams. Os nad ydyn nhw, mae fideos defnyddiol iawn yn eu 'Team' blwyddyn gan Mr Fletcher i'w cynorthwyo gyda'r gwaith.
- Bydd adrannau yn cytuno ar ffordd o roi adborth i'ch plentyn ac yn gwneud hynny yn unol â phenderfyniad yr adran ar ôl i'ch plentyn gyflwyno darn o waith.



Ein nod ydy sicrhau bod ein disgyblion yn parhau i gael mynediad at eu haddysg ac at arweiniad gan eu hathrawon gan aros yn ddiogel ar bob adeg.

Ni fyddwn yn ffrydio gwersi i ddisgyblion 7 ac 8 mewn achosion unigol os yw eich plentyn adre'n sal neu yn hunan ynysu tra'n aros am ganlyniad prawf / oherwydd bod symptomau gan aelod o'r teulu. Serch hynny, os dynt yn ddigon iach i weithio, mae croeso i ddisgyblion i gysylltu gyda'u hathrawon drwy SMHW neu Teams i



Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe
Heol Gwrysydd, Penlan, Abertawe SA5 7BU
Ffôn 01792 560600

Ebost: vgg.bryntawe@swansea-edunet.gov.uk
www.bryntawe.swansea.sch.uk

Pennaeth : Mr Simon Davies



BUDDSODDWR
MEWN POBL

Aur



dderbyn gwaith. Os yw eich plentyn yn y 6ed, mae'n bosib ffrydio gwersi i unigolion, unwaith eto os ydynt yn ddigon iach i weithio.

OFFER DIGIDOL

Ein bwriad yw i ddarparu dyfais digidol i bob disgybl o flynyddoedd 9-13 (sydd ddim â mynediad at ddyfais) er mwyn gallu parhau i weithio o bellter. Yn naturiol, mae'n bosib iawn bod sefyllfaoedd unigolion wedi newid ers llynedd, felly gofynnwn i chi fel rhieni i lenwi'r [holiadur yma](#) os bydd angen i'ch plentyn fenthyg gliwiadur ar gyfer parhau gyda'i waith.

ARHOLIADAU AIL EISTEDD I'R 6ED

Bydd disgyblion sydd wedi gwneud cais i ail-sefyll arholiadau yn ystod yr wythnos o'r 2-6ed o Dachwedd yn parhau i'w gwneud, ond mae caniatad hefyd i ddisgyblion i adael y safle i deithio adref yn ddiogel yn syth ar ôl eu arholiad. Bydd cludiant arferol yr ysgol ar gael os oes angen ac fe allwn drefnu man diogel i'ch plentyn weithio yn yr ysgol os nad oes cludiant adref ganddo.

PRYDAU YSGOL AM DDIM (PYD)

Bydd disgyblion sydd yn deilwng i BYD yn parhau i'w derbyn dros bob gwyliau hyd at y Pasg, naill ai drwy daliad BACS neu drwy dderbyn bag bwyd. Bydd disgyblion o flynyddoedd 9-13eg sydd yn deilwng i BYD hefyd yn derbyn naill ai taliad BACS neu fag bwyd am yr wythnos rhwng yr 2-6ed o Dachwedd. Os yw eich plentyn yn deilwng ac nad ydych wedi derbyn opsiwn i dderbyn naill ai taliad BACS neu fag bwyd, cysylltwch gyda Mrs Jayne Bowen drwy e-bost: BowenJ129@hwbcymru.net, neu ffoniwch yr ysgol. Bydd disgyblion 7 ac 8 sydd yn deilwng i BYD yn eu derbyn yn ddyddiol fel arfer yn yr ysgol.

Gobeithio y cewch amser i ymlacio gyda'ch gilydd fel teulu dros yr hanner tymor. Os oes gennych unrhyw gwestiynau pellach am yr uchod, mae croeso i chi gysylltu gyda'r ysgol ar unrhyw adeg yr wythnos hon neu yn syth ar ôl hanner tymor. Cadwch yn ddiogel.

Yn ddiffuant,





Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe
Heol Gwrysydd, Penlan, Abertawe SA5 7BU
Ffôn 01792 560600

Ebost: yg.bryntawe@swansea-edunet.gov.uk
www.bryntawe.swansea.sch.uk

Pennaeth : Mr Simon Davies



BUDDSODDWYR
MEWN POBL

Aur

